



## Ysgol Pentreuchaf

### 94. Polisi Gwasanaethau Crefyddol

#### Nod

Cynnal gwasanaeth dyddiol i ddatblygu gwybodaeth y plant o'r ffydd Gristnogol i hybu eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

#### Canllawiau

1. Trefnu patrwm o wasanaethau dyddiol – gan amlaf rhai ysgol gyfan, ond cynhelir gwasanaeth gan bob dosbarth yn ei dro.
2. Bydd pob athrawes yn cymryd cyfrifoldeb am wahanol agweddau – yr Hen Destament, y Testament Newydd, y moesol, emynwyr ac emynau, y Cwricwlwm Cymreig, dathliadau a.y.y.b.
3. Cyflwyno disgyblion i'r arfer o weddio, iddynt ddysgu a defnyddio Gweddi'r Arglwydd (yn gymraeg a Saesneg), Gras, gwrando ar weddiau eraill a chreu gweddiau eu hunain. Byddwn yn annog yr athrawon a'r disgyblion i weddio o'r frest, os ydynt yn gyfforddus yn gwneud hyn.
4. Cyflwyno'r syniad o fyfyrion yn dawel ar faterion personol, problemau yn y byd, i ddatblygu'r ysbrydol sy'n anodd iawn i blant ifanc.
5. Dysgu emynau a chaneuon crefyddol ac ysbrydol eraill er mwyn i'r plant fedru cymryd rhan.
6. Rhoi cyfle i ddisgyblion ddarllen, adrodd a chymryd rhan mewn gwasanaethau a dysgu sut y defnyddir y Beibl wrth addoli.
7. Annog datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol y disgyblion ynghyd â phrif rinweddau'r Cristion sef caredigrwydd, cariad, tosturi, cyfiawnder a pharch at ei gilydd.
8. Dathlu llwyddiant a chyrrhaeddiad yr ysgol ac unigolion mewn amrywiol feysydd – academiaidd, chwaraeon, ymddygiad a.y.y.b.
9. Gwahodd ymwelwyr – y Gwenidog, y Tad Catholig, y Ficer a.y.y.b. i rannu'r addoliad a chynnal gwasanaeth yn yr ysgol o bryd i'w gilydd.
10. Trefnu gwasanaethau yn achlysurol yn y capel a'r eglwys leol. Gwahoddir rhieni a chyfeillion i'r gwasanaethau hyn a gwneir casgliad tuag achos da – gan amlaf y plentyn o Lesotho a fabwysiadwyd gan yr ysgol.
11. Gwneud rhieni'n ymwybodol o natur wirfoddol cydaddoliad a'u hawl i dynnu eu plant o'r addoliad dyddiol. Os bydd plentyn yn cael ei eithrio o'r addoliad, bydd yr ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar ei gyfer.
12. Sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i gefnogi cydaddoliad.

#### Casgliad

Trwy wasanaethau crefyddol eu naws, fe gaiff pob plentyn y cyfle i werthfawrogi gwerthoedd Cristnogol a moesol, cariad at gyd-ddyn, goddefgarwch a gonestrwydd, a'u dylanwad ar yr unigolyn a'r gymdeithas.

**Adolygir: Chwefror 2017**

**Arwyddwyd:** \_\_\_\_\_, **Cadeirydd y Llywodraethwyr**

**Dyddiad:** \_\_\_\_\_